

Ymchwiliad i Lobio

Ymgynghoriad

Mai 2022

Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) yn cynnal ymchwiliad i Lobio.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddarganfod a yw lobio yn destun pryder i bobl yng Nghymru, ac a ellir gwneud mwy i gynyddu tryloywder ynghylch gwneud penderfyniadau yng Nghymru.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich safbwyntiau am y cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad hwn. Dylech gyflwyno eich ymateb erbyn 23 Mehefin 2022 i

SeneddSafonau@senedd.cymru.

Sut i ymateb

Cyflwyno Tystiolaeth Ysgrifenedig

Mae gan y Senedd ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg.

Yn unol â [Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd](#), mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrefodion y Senedd gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

Gweler y [canllawiau ar gyfer y sawl sy'n cyflwyno tystiolaeth i bwyllgor](#).



Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y materion yn y ddogfen.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, cyflwynwch un ddogfen (dogfen Word fyddai orau) gydag unrhyw dablau, taenlenni ac atodiadau wedi'u hymgorffori ym mhapur eich cyflwyniad i **SeneddSafonau@senedd.cymru**.

Ar hyn o bryd, mae staff y Senedd yn gweithio gartref yn bennaf. O ganlyniad, mae'n bosibl na chaiff gohebiaeth sylw amserol, oni bai ei bod yn ohebiaeth trwy ddull electronig.

Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth yw 5.00pm, **ddydd Iau 23 Mehefin 2022**.

Datgelu gwybodaeth

Gwnewch yn saff eich bod wedi ystyried **[polisi'r Senedd o ran datgelu gwybodaeth](#)** cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Fel arall, gellir gofyn am gopi caled o'r polisi hwn trwy gysylltu â Chlerc y Pwyllgor (0300 200 6565) neu **SeneddSafonau@senedd.cymru**.

Ymchwiliad i Lobïo: Ymgynghoriad

1. Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn cynnal ymchwiliad i lobïo ac mae'n awyddus i ddarganfod a yw lobïo yn destun pryder i bobl Cymru. Cytunwyd i ystyried:

"A yw trefniadau presennol y Senedd o ran lobïo yn ddigon cadarn ac addas i'r diben ar gyfer y Chweched Senedd."

2. Nid oes diffiniad clir, y cytunwyd arno, o'r hyn a olygir wrth lobïo. Yn ei ystyr ehangaf, ei ystyr yw ceisio dylanwadu (ar un sy'n deddfu) ar fater. Mae hon yn swyddogaeth bwysig o fewn gwleidyddiaeth, a'r her yw sicrhau bod y math hwn o ddylanwad yn dryloyw ac yn ddealladwy.

3. Ar hyn o bryd nid oes gan y Senedd gofrestr lobïo, ond yn hytrach mae ganddi ganllawiau mewn perthynas â lobïo y cytunwyd arnynt drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn yn 2013. Mae'r canllawiau hyn yn ategu ac yn atodol i'r darpariaethau yn y Cod Ymddygiad mewn perthynas â lobïo, ac maent yn nodi'n glir na ddylai Aelodau ymgymryd â gwaith cyflogedig sy'n cynnwys lobïo ar ran rhywun. Mae'n nodi rhai o'r ystyriaethau y dylai Aelodau eu cael mewn perthynas ag ymdrin â lobïwyr posibl, fel llunio cofnodion a nodiadau ar gyfarfodydd o'r fath.

4. Mae gan y Senedd hefyd reolau mewn perthynas â Grwpiau Trawsbleidiol, sef grwpiau o Aelodau a phobl berthnasol y tu allan i'r Senedd sy'n cwrdd i drafod maes penodol. Cyflwynwyd y rheolau hyn ar ôl i'r mater gael ei ystyried gyntaf yn 2013. Ceir rhagor o wybodaeth a rhestr lawn o'r Grwpiau Trawsbleidiol ar wefan y Senedd.

5. Bu Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Bumed Senedd hefyd yn ystyried lobïo. Un opsiwn a ystyriwyd oedd cofrestr statudol o lobïwyr, ble y byddai cyswllt lobïwyr ag Aelodau o'r Senedd yn cael ei gofnodi ar gofrestr. Mae llawer o wahanol ffurfiau o ran cofrestr ac roedd yr ymchwiliad wedi nodi dadleuon o blaid ac yn erbyn cofrestrau statudol. Cytunodd y Pwyllgor ar y pryd i aros am ganlyniad adolygiad yn yr Alban o gyflwyno cofrestr lobïo yn y wlad honno, er mwyn ei helpu i wneud penderfyniad mwy gwybodus. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Chraffu Ôl-ddeddfwriaethol yn Senedd yr Alban ei adolygiad o'r deddfwriaeth ym mis Mawrth 2021.

6. Mewn ymchwiliadau blaenorol gan y Senedd, ni chanfuwyd bod unrhyw broblem lobïo benodol yng Nghymru bryd hynny.

7. O ystyried yr ymrwymiad i adolygu'r mater hwn yn rheolaidd, mae Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Chweched Senedd wedi cytuno i edrych ar lobïo fel ei ymchwiliad nesaf.

8. Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, mae'r Pwyllgor yn awyddus i ganfod beth yw canfyddiad y cyhoedd o lobio. Hoffai'r Pwyllgor wybod hefyd:

- Beth mae'r term 'lobio' yn ei olygu i chi?
- Pa bryderon, os o gwbl, sydd gennych ynglŷn â lobio Aelodau o'r Senedd?
- Beth yw eich dealltwriaeth o rôl Grwpiau Trawsbleidiol mewn perthynas â lobio yn y Senedd, ac oes gennych sylwadau/bryderon?
- Sut ydych chi'n meddwl y gallem ni sicrhau rhagor o dryloywder ynghylch gwneud penderfyniadau yng Nghymru?
- A ydych yn ystyried eich hun yn lobiwr? Sut mae lobio'n cael ei reoleiddio yn eich sector ar hyn o bryd (e.e. os ydych yn fusnes preifat, yn gweithio yn y trydydd sector, neu'n sefydliad proffesiynol)?
- A ydych wedi cael unrhyw broblemau gyda'r darpariaethau yn y Cod a'r canllawiau ar lobio a mynediad at Aelodau o'r Senedd (y cytunwyd arnynt yn 2013)?
- A oes unrhyw feysydd sy'n ymwneud â lobio yr ydych yn ystyried nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, sy'n rhoi atebolrwydd ac enw da llywodraethu yng Nghymru mewn perygl?